

**Cofnodion Cyfarfod o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus
a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron ac o bell Ddydd Llun, 18 Mawrth 2024**

Presennol: Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Marc Davies (Is-gadeirydd), Shelley Childs, Gethin Davies, Meirion Davies, Rhodri Davies, Rhodri Evans, Chris James, Maldwyn Lewis, Sian Maehrlein, Ann Bowen Morgan, John Roberts a Carl Worrall.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr Euros Davies, Raymond Evans, Wyn Evans, Hugh Hughes a Gareth Lloyd.

Aelodau Cabinet yn bresennol: Y Cynghorydd Keith Henson.

Swyddogion yn bresennol: Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol; Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol, Twf a Menter; Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democraidd.

(10.00am- 12.37pm)

1 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorydd Clive Davies, Aelod Cabinet ar gyfer yr Economi ac Adfywio am nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod.

2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Datganodd y Cynghorwyr Chris James a Maldwyn Lewis fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu o dan eitem 4 a gadawsant y cyfarfod pan oedd y mater hwnnw'n cael ei drafod.

3 Y Gwasanaeth Casglu Gwastraff

Rhoddodd y Cynghorydd Keith Henson (Aelod Cabinet ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon) drosolwg o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2023, gan gynnwys y materion allweddol a drafodwyd, y pwyntiau gweithredu a'r cynnydd hyd yma.

Ers y cyfarfod ar 21 Mawrth 2023, roedd rhagor o wybodaeth ar gael oedd yn tystio nid yn unig i'r gwelliant ym mherfformiad y gwasanaeth o safbwynt casglu gwastraff dros y 9 mis diwethaf ond oedd hefyd yn darparu gwybodaeth am berfformiad rhagorol y gwasanaeth yn genedlaethol a hynny drwy ddadansoddi data yn wrthrychol. Darparwyd trosolwg o'r data ar ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio gwastraff trefol ar gyfer 2022-23 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC) ac o Adroddiad Blynyddol ar Ddata Cyllid Gwastraff, ynghyd ag adroddiad cryno ar ffurf ddrafft gan

Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Ar lefel Ceredigion, roedd y gwasanaeth wedi pennu cyfres o fesurau perfformiad er mwyn mesur a monitro'r gwasanaeth roedd yn ei ddarparu i'w drigolion, gyda'r nod o sicrhau bod dros 90% o'r llwybrau yn cael eu cyflenwi ar y diwrnod casglu rheolaidd, a 95% yn cael eu cyflenwi yn ystod yr wythnos gasglu reolaidd.

Rhoddodd Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol gyflwyniad i'r Pwyllgor yn amlinellu'r canlynol:

- Aflonyddwch 22-23
- Prif Faterion i'w Ystyried
- Opsiynau Posibl Am Y Dyfodol
- Gweithredoedd
- Sefyllfa Bresennol (Perfformiad Ailgylchu, Ffigurau Ailgylchu CSC 23/24 ac Adroddiadau CLILC 21/22)
- Pwyntiau eraill i'w nodi

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan Rhodri Llwyd a'r Cynghorydd Keith Henson. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- O ran yr Adolygiad o Safleoedd Gwastraff Cartref (SGC), roedd opsiynau'n cael eu harchwilio a byddai'r manylion yn cael eu rhannu â'r Aelodau yn unol â hynny. Nodwyd bod gan Gyngor Sir Ceredigion (CSC) fwy o ddarpariaeth o SGC y pen nag unrhyw Awdurdod Lleol (ALI) arall ledled Cymru. Er gwaethaf pryderon y byddai cau un o'r SGC yn arwain at fwy o dipio anghyfreithlon, mae tystiolaeth o Awdurdodau Lleol eraill yn awgrymu nad yw hyn yn wir.
- Roedd y gostyngiad yn y cyfraddau ailgylchu yn 23/24 o 75.91% yn chwarter 1 i 70.47% yn chwarter 3 o ganlyniad i ostyngiad yn y broses o ailgylchu sgubo priffyrdd yn chwarter 3. Ar hyn o bryd roedd gan CSC 3 ysgubwr priffyrdd a oedd ar y rhaglen i'w newid.
- O ran adolygu contractau staff gweithrediadol, trefnwyd cyfarfod gyda'r gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth i drafod y ffordd ymlaen a pha un ai fod angen trafodaethau pellach.
- Yn dilyn cymeradwyo'r uchafswm o 3 bag du o wastraff gweddilliol y cartref fesul casgliad pob 3 wythnos, codwyd pryderon ynghylch ymarferoldeb ac effaith y penderfyniad hwn ar breswylwyr (e.e. Tai Amlfeddiannol). Roedd trafodaethau'n parhau ynghylch y newidiadau a byddai gwersi'n cael eu dysgu o Awdurdodau Lleol eraill ledled Cymru a oedd eisoes wedi gweithredu hyn. Byddai Strategaeth Gyfathrebu yn cael ei datblygu i rannu gwybodaeth gydag Aelodau Etholedig a'r cyhoedd.
- Ystyriwyd bod addysgu'r cyhoedd am bwysigrwydd ailgylchu yn allweddol, wrth i ddata awgrymu bod dros 50% o wastraff mewn bagiau du naill ai'n fwyd neu'n gallu cael ei ailgylchu. Yn ogystal â hyn, mae'n fwy cost-effeithiol i ailgylchu gwastraff a bwyd o'i gymharu â gwaredu gwastraff gweddilliol.
- Dywedodd yr Aelodau fod dod â chasgliadau ymlaen i ddydd Sadwrn cyn Dydd Llun Gŵyl y Banc yn effeithiol iawn a dylid canmol y Gwasanaeth am hyn. Roedd costau staff ar ddydd Sadwrn ac ar Wyl y Banc yn cynnwys taliadau goramser.
- Roedd y fflyd bresennol tua 5 mlwydd oed, a'r bwriad oedd ei newid yn y 2-3 blynedd nesaf. Byddai anghenion y fflyd newydd yn dibynnu ar y

Strategaeth Casglu Gwastraff a byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gerbydau trydan/hydrogen; Fodd bynnag, byddai'r newid hwn yn amodol ar gyllideb.

- Roedd datrysiadau digidol yn cael eu harchwilio er mwyn adnabod cynhyrchwyr gwastraff masnachol. O 6 Ebrill 2024, bydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith i fusnesau sortio'u gwastraff i'w ailgylchu. Yn ddiweddar, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi cyflogi 8 swyddog ledled Cymru i fonitro a chymryd camau gorfodi lle bo angen a byddai swyddogion o CSC a CNC yn cydweithio i addysgu busnesau am y newidiadau.
- Derbyniwyd cadarnhad bod gwastraff ailgylchu'r ALI yn cael ei gludo i Gyfleuster Adfer Deunydd yng Ngogledd Iwerddon, tra bod gwastraff gweddilliol y Cyngor yn cael ei gludo i gyfleusterau 'Energy from Waste' yng Nghymru a Lloegr.
- Canmolwyd y gwasanaeth ac yn enwedig y timau rheng flaen am eu gwaith mewn amgylchiadau heriol megis yn ystod y lefel uchel diweddar o absenoldeb staff a oedd yn derbyn sylw, a phroblemau gyda'r fflyd.

Diolchodd Rhodri Llwyd ar ran y Gwasanaeth Casglu Gwastraff i Aelodau'r Pwyllgor am eu cefnogaeth ac roedd yn amlwg bod cyfathrebu a chydweithio yn allweddol, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth gorau yn cael ei ddarparu i drigolion Ceredigion. Anogwyd yr aelodau i roi gwybod am unrhyw broblemau casglu gwastraff drwy CLIC.

Diolchodd y Cynghorydd Keith Henson i bawb a oedd yn bresennol am drafodaeth ddiddorol a oedd yn tynnu sylw at bwysigrwydd a gwaith gwasanaeth a effeithiwyd gan doriadau yn y gyllideb dros y blynyddoedd.

CYTUNWYD i nodi'r gwasanaeth rhagorol sy'n parhau i gael ei ddarparu yn ogystal â'r cynnydd a wneir gyda'r camau y cytunwyd arnynt o'r blaen.

4 Argaeledd grantiau i sefydliadau a busnesau yng Ngheredigion

Eglurodd Arwyn Davies, Rheolwr Corfforaethol, Twf a Menter bod amrywiaeth o grantiau ar gael yng Ngheredigion i sefydliadau a busnesau at wahanol ddibenion, yn bennaf i gefnogi eu twf, eu harloesodd a'u cyfraniad i'r economi. Rhoddwyd rhai o'r rhesymau pam roedd busnesau'n derbyn grantiau gan y sector cyhoeddus. Yn gyffredinol, roedd grantiau'n cymell twf busnes, arloesi a datblygiad economaidd-gymdeithasol trwy ddarparu cymorth ariannol a chefnogaeth i fusnesau oedd yn dangos eu bod yn cyfrannu i'r amcanion cyhoeddus hyn. Roedd grantiau hefyd ar gael i sefydliadau cymunedol i gefnogi datblygiad mentrau oedd yn cefnogi datblygiad cyfleusterau a gweithgareddau yn y cymunedau hynny.

Roedd y wybodaeth yn yr adroddiad ond yn gynrychiolaeth o rywfaint o'r cyllid cymorth oedd ar gael ar hyn o bryd i fusnesau a sefydliadau yng Ngheredigion, ac nid oedd yn rhestr gynhwysfawr. Roedd llywodraethau neu gyrff y Llywodraeth yn lansio rhaglenni ariannu ar wahanol adegau i gefnogi blaenoriaethau a pholisïau'r Llywodraeth, felly cynghorwyd busnesau i ddefnyddio'r gefnogaeth oedd ar gael a chwilio'n eang am gymorth a allai fod ar gael ar unrhyw un adeg.

Darparwyd trosolwg o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) a oedd wedi galluogi sefydlu dau gynllun grant (Cronfa Datblygu a Chymorth Cymunedol Cynnal y Cardi a Chronfa Cefnogi Busnesau Lleol Cynnal y Cardi). Nodwyd, er bod y grantiau'n fach o ran swm ar brydiau, roeddent yn rhoi hyder i'r rhai a oedd wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais ac a allai hefyd ddenu buddsoddiad preifat. Awgrymodd data diweddar fod mwy o fusnesau newydd wedi cychwyn yng Ngheredigion o'i gymharu â'r rhai oedd wedi cau dros y 2-3 blynedd diwethaf. Cyfrannodd sawl ffactor at hyn, gan gynnwys cymorth ariannol.

Cafodd yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau a gafodd eu hateb gan Arwyn Davies. Dyma'r prif bwyntiau a godwyd:

- Rhaglen 3 blynedd oedd Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU Cynnal y Cardi 2022-25, ac fe rannwyd y £12m a ddyrannwyd i Geredigion rhwng llawer o fusnesau a sefydliadau. Roedd nifer o brosesau ynghlwm â chyflawni'r gwaith o fewn y cyfnod hwn, gan gynnwys sefydlu'r rhaglenni, cymeradwyo ceisiadau a phrosesu'r ceisiadau unwaith y mae'r gwaith wedi'i gwblhau.
- Cytunodd y Bartneriaeth i gau cyfnod ymgeisio am grantiau Cynnal y Cardi 2022-25 ar 25 Mawrth 2024 oherwydd y nifer uchel o geisiadau ac er mwyn caniatáu i'r ceisiadau presennol gael eu hasesu. Roedd ailagor cyfleoedd cyllid grant yn ddibynnol ar addasrwydd y ceisiadau. Roedd yr un peth yn wir am y grantiau cymunedol.
- Ystyriwyd fod grantiau i gefnogi busnesau a sefydliadau yn hanfodol, ac roedd yn gadarnhaol bod lefel uchel o ddiddordeb wedi bod o fewn y sir, a oedd yn adlewyrchu'r angen am gefnogaeth. Anogodd yr Aelodau ar y gwasanaeth i sicrhau nad oedd unrhyw gyllid a ddyrannwyd i'r ALI heb ei ddefnyddio.
- Asesodd Panel geisiadau Cynnal y Cardi a sgoriwyd pob cais yn annibynnol. Ystyriwyd nifer o ffactorau, gan gynnwys y cynllun busnes, a sut y mae'n cyd-fynd â'r strategaeth economaidd leol. Pe bai busnes wedi methu'r trothwy o drwch blewyn, darparwyd adborth a lle'r oedd amser a chyllid yn caniatáu, roedd cyfle i ailymgeisio.
- Datblygwyd cynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth yng Nghanolfan Bwyd Cymru yn Horeb fel rhan o Raglen Tyfu Canolbarth Cymru.
- Yn hanesyddol, nid oedd Cymru wedi cael llawer o lwyddiant o ran denu grantiau arloesol, fodd bynnag, cyhoeddodd y Canghellor yn ystod Cyllideb y Gwanwyn diweddar fod swm o £5m wedi'i ddyrannu drwy gynllun Arloesi Ymchwil y DU (UKRI) i greu platfform at gyfer Lansio Bwyd Amaeth ar draws Canolbarth a Gogledd Cymru. Daeth y cyhoeddiad hwn yn dilyn cais aflwyddiannus gan CSC ar ran y rhanbarthau am gyllid i'r sector Technoleg Amaeth. Gobeithir y bydd y datblygiad yn darparu llwyfan ar gyfer arloesi ac yn gosod y rhanbarth mewn lle gwell i ddenu grantiau a buddsoddiadau yn y dyfodol. Un o'r prif dasgau ar gyfer CSC oedd sicrhau bod cymaint o'r £5m yn cael ei fuddsoddi yng Ngheredigion.

Rhoddodd Arwyn Davies drosolwg o'r Benthyciadau a gefnogir gan y Llywodraeth drwy Fanc Datblygu Cymru a Banc Busnes Prydain – Cronfa Buddsoddi Cymru. Yn gynyddol, roedd llywodraethau'n tueddu i ffafrio'r

defnydd o arian ailgylchadwy ar ffurf benthyciadau, neu gymysgedd o grantiau a chyllid ailgylchadwy, i wneud y cronfeydd presennol yn fwy cynaliadwy i'r dyfodol.

Nodwyd bod yr heriau i fusnesau a sefydliadau mewn ardaloedd gwledig yn unigryw, ac felly, roedd argaeledd grantiau yn hanfodol i annog twf economaidd. Byddai asesiad o'r effaith ar economi Ceredigion a'r angen am y cymorth hwn yn cael ei gynnal a byddai'n cael ei gyflwyno i randdeiliaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Diolchodd y Cadeirydd i Arwyn Davies am adroddiad llawn gwybodaeth a'i annog i ddychwelyd gyda diweddariad pan fyddai'r amgylchiadau yn caniatáu.

CYTUNWYD i nodi'r adroddiad.

5 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion

CYTUNWYD i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2024.

Materion sy'n codi: Esboniodd y Cynghorydd Carl Worrall ei fod yn bresennol yn y cyfarfod blaenorol, er nad oedd ei enw wedi'i gynnwys yn y cofnodion.

6 Ystyried Rhaglen Flaen Trosolwg a Chraffu

CYTUNWYD nodi cynnwys y Flaen raglen Waith a gyflwynwyd, yn ddibynnol ar gynnwys y canlynol:

- Cynllun Asedau Priffyrdd (Mehffin neu Orffennaf 2024)
- Dogfennau monitro Adroddiad Refeniw Chwarterol / Cyllideb (Mehffin 2024)
- Adroddiad ar effaith grantiau a chymorth ar fusnesau a sefydliadau Ceredigion (diwedd 2024)
- Diweddariad ar briffyrdd Cyngor Sir Ceredigion
- Diweddariad ar effaith cyflwyno'r terfynau cyflymder o 20mya

Eglurodd y Cadeirydd mai hwn oedd ei gyfarfod olaf fel Cadeirydd y Pwyllgor. Diolchodd i bawb am eu cyfraniad dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2024**

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____